



Canllawiau ar wneud cais

Cyfle arall: symud oddi wrth y system gyfiawnder troseddol

Ebrill 2021

Amdanom ni

Elusen yw'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid (YEF) gyda chenhadaeth bwysig. Ein nod yw atal plant a phobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais. Rydym yn gwneud hyn drwy ddysgu beth sy'n gweithio ac adeiladu mudiad i roi'r wybodaeth hon ar waith.

Mae plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drais yn haeddu gwasanaethau sy'n rhoi'r cyfle gorau iddynt o gael dyfodol positif. Er mwyn gwneud yn siŵr bod hynny'n digwydd, byddwn yn ariannu prosiectau addawol cyn defnyddio'r arfarniad gorau posibl i ddysgu beth sy'n gweithio. Yn yr un modd ag yr ydym yn elwa ar dreialon cadarn mewn meddygaeth, mae pobl ifanc yn haeddu cefnogaeth ar sail tystiolaeth. Drwy ein cylchoedd grant, byddwn yn adeiladu'r wybodaeth honno. Rhywbeth arall pwysig iawn yw deall bywydau plant a phobl ifanc. Drwy ein Bwrdd Cynghori Ieuenctid a'n rhwydwaith cenedlaethol o ymchwilwyr cyfoedion, byddwn yn sicrhau eu bod nhw'n dylanwadu ar ein gwaith a'n bod yn deall eu hanghenion, ac yn mynd i'r afael â nhw.

Wedi dweud hyn, ni fydd yn gwneud gwahaniaeth o gwbl os y cwbl a wnawn yw ysgrifennu adroddiadau sy'n aros ar silff. Gyda'n gilydd, mae angen i ni edrych ar y dystiolaeth a chytuno beth sy'n gweithio, ac yna adeiladu mudiad i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y gefnogaeth orau posibl.

Mae ein strategaeth yn trafod sut y.



Cyfle arall: symud oddi wrth y system gyfiawnder troseddol

Ein nod yw gwella bywydau plant a phobl ifanc. Rydym yn adeiladu ein holl waith o amgylch cyfres o themâu - yr amodau yr ydym yn credu sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc yn eu bywydau i'w cadw nhw'n ddiogel rhag dod ynghlwm wrth drais. Mae'r gyfres hon o themâu'n darparu ffocws ar gyfer y wybodaeth yr ydym am ei hadeiladu ynghylch beth sy'n gweithio i helpu i roi'r amodau hyn ar waith i bob plentyn a pherson ifanc.

Y cylch grantiau hwn, *Cyfle arall: symud oddi wrth y system gyfiawnder troseddol*, yw'r cyntaf y byddwn yn ei redeg yn rhan o'n thema **cyfle arall**.



Mae pobl ifanc angen...



Cartref cefnogol

Boed hynny drwy therapi teuluol neu ddsbarthiadau rhianta, rydym yn gwybod y gall helpu rhieni a gofalwyr wneud gwahaniaeth i fywyd plant sydd mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drais. Mae hyn yn cynnwys cymorth penodol i blant mewn gofal.

Oedolion y maent yn ymddiried ynddynt

Gall fod yn athro, gweithiwr ieuencid, hyfforddwr chwaraeon, mentor, neu ffrind i'r teulu. Mae ar blant a phobl ifanc angen oedolion y gallent ymddiried ynddynt i drafod eu problemau a chael cymorth pan fo angen.

Lle diogel a phositif i ddysgu ynddo

Mae sicrhau bod plant yn cymryd rhan yn eu haddysg yn eu helpu i gadw'n ddiogel rhag bod ynghlwm wrth drais. Byddwn yn edrych ar sicrhau bod gan ysgolion, colegau, Unedau Cyfeirio Disgyblion a mathau eraill o addysg raglenni ar waith i sicrhau eu bod yn lleoedd diogel a phositif i ddysgu ynddynt.

Cyfleoedd

Mae angen cyfleoedd ar bobl ifanc - boed hynny'n rhai cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg. Gall dyfodol disglair, gyda chyfle i adeiladu eu cryfderau a'u talentau, amddiffyn pobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais.

Cymdogaeth ddiogel

Mae bod â rhwydwaith ffrindiau da a lleoedd diogel i fynd yn y gymdogaeth yn golygu bod modd i blant a phobl ifanc gadw'n ddiogel. Gall hynny gynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn tîm chwaraeon neu'r cyfle i greu celf neu gerddoriaeth. Ac mae'n cynnwys gwasanaeth heddlu sy'n effeithiol a theg y mae pobl yn ymddiried ynddo.

Cyfle arall

Weithiau, mae pethau'n mynd o chwith. Os yw person ifanc yn dod i drwbl, yn cael ei arestio neu'n ei gael yn euog o drosedd, bydd angen cymryd llwybr amgen ac osgoi cylch o aildroseddu.

Sgiliau cymdeithasol ac iechyd meddwl da

Mae angen i blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Os gallent gydnabod a rheoli eu teimladau, gallent adeiladu perthnasoedd cryf gyda phobl eraill a goresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu. Yn ogystal, mae angen y cymorth gorau posibl i wella eu hiechyd meddwl a'u hunanhyder.

Cymdeithas deg

Er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd, mae angen i ni weithio i wneud cymdeithas yn fwy teg. Mae hyn yn golygu taclo hiliaeth, gwahaniaethu a thlodi.



Beth yw dargyfeirio?

Weithiau, rydym yn gwybod bod plant angen **cyfle arall**: opsiynau amgen i gael eu harestio, eu herlyn a'u cadw yn y ddalfa. Mae rhaglenni dargyfeirio'n helpu yn hyn o beth, boed hynny drwy gefnogaeth iechyd meddwl, ymyriadau teulu cyfan neu fentora (er enghraifft). Maent i gyd yn tueddu i gynnig cefnogaeth ar bwyntiau allweddol; gall hynny fod ar adeg arestio, cyn i weithrediadau llys gael eu rhoi ar waith, a phan fydd plentyn yn dioddef anaf difrifol drwy fod yn rhan o ymosodiad treisgar.

Pam ydych chi'n ariannu prosiectau dargyfeirio?

Mae dargyfeirio'n faes pwysig yr hoffem ei ymchwilio'n rhan o'n thema, **cyfle arall**. Drwy ein sgysiau gyda rhanddeiliaid, roeddech yn glir bod angen i ni ddysgu mwy am yr hyn sy'n gwneud prosiect dargyfeirio'n effeithiol. Ac mae tystiolaeth addawol bod yr ymagweddau hyn yn effeithiol o ran atal ail-droseddu a lleihau'r risg o ddod ynghlwm wrth drais. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn bennaf yn dod o'r Unol Daleithiau, ac mae angen rhagor o dystiolaeth ar brosiectau sy'n cael eu cynnal yn y DU.

Drwy'r cylch Mae dargyfeirio'n faes pwysig yr hoffem ei ymchwilio'n rhan o'n thema, cyfle arall. Drwy ein sgysiau gyda rhanddeiliaid, roeddech yn glir bod angen i ni ddysgu mwy am yr hyn sy'n gwneud prosiect dargyfeirio'n effeithiol. Ac mae tystiolaeth addawol bod yr ymagweddau hyn yn effeithiol o ran atal ail-droseddu a lleihau'r risg o ddod ynghlwm wrth drais. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn bennaf yn dod o'r Unol Daleithiau, ac mae angen rhagor o dystiolaeth ar brosiectau sy'n cael eu cynnal yn y DU.

Drwy'r cylch grant hwn â thema, rydym yn awyddus i ddysgu pa ymagweddau dargyfeirio sy'n gweithio orau o ran atal y rhai rhwng 10 ac 17 oed rhag dod ynghlwm wrth drais.

Beth fyddwn ni'n buddsoddi iddo

Byddwn yn ceisio adnabod oddeutu 10-20 o brosiectau sy'n barod ar gyfer gwerthusiad effaith cadarn, neu fyddai'n gallu cael eu cefnogi i gyrraedd y pwynt hwn o fewn dwy flynedd. Bwriadwn wario rhwng £10 miliwn a £10 miliwn, yn dibynnu ar ansawdd y ceisiadau.

Gall ein cyllid redeg am hyd at dair blynedd (ond gallwch wneud cais am un o ddwy flynedd o gyllid hefyd).

I weld sgôp llawn y prosiectau y byddwn yn eu hariannu yn ystod y rownd hon, gweler tudalen 16 o'n [prospectws 2021](#).

Gwybodaeth am y canllawiau

Mae'r canllaw hwn wedi'i dorri i lawr i bum rhan:

1 Dysgu am yr hyn sy'n gweithio

Mae'r rhan hon yn amlinellu sut i ddod o hyd i dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais, all fod yn ddefnyddiol ar gyfer eich cais.

2 Sut fyddwn ni'n asesu eich cais

Mae'r rhan hon yn amlinellu'r meini prawf y byddwn yn eu defnyddio i asesu eich cais.

3 Sut i wneud cais: defnyddio ein porth ar-lein

Mae'r rhan hon o'r dystiolaeth yn egluro sut i osod eich ffurflen gais, a sut i'w defnyddio.

4 Sut i wneud cais: sut i ymateb i'n cwestiynau - canllaw cam wrth gam

Mae'r rhan hon yn egluro sut byddwn yn asesu eich cais, a beth rydym yn chwilio amdano yn eich ateb i bob cwestiwn ar y ffurflen gais.

5 Beth sy'n digwydd nesaf

Rydym yn egluro beth i'w ddisgwyl ar ôl i chi gyflwyno'ch cais.



Dysgu am yr hyn sy'n gweithio



1. Dysgu am yr hyn sy'n gweithio

Nod y Gronfa Gwaddol Ieuencid yw atal plant a phobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais. Rydym yn gwneud hyn drwy ddysgu beth sy'n gweithio, ac adeiladu mudiad i roi'r wybodaeth hon ar waith.

Byddwn yn defnyddio ein cyllid i ddysgu beth sy'n gweithio orau. Pan fyddwn yn gwybod mwy am y ffordd orau y gallwn gefnogi pobl ifanc, byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr ymagweddau, yr ymarferion a'r rhaglenni hynny ar gael i'r bobl ifanc sydd eu hangen. Mae hyn yn golygu, yn y rownd grantiau hon, mae gennym ddiddordeb mewn ariannu gweithgareddau y gallwn eu gwerthuso'n drylwyr ar hyn o bryd.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau gan brosiectau sydd eisoes yn cyflawni, sy'n gallu dangos ychydig o dystiolaeth bresennol eu bod nhw'n gweithio'n dda, ac a fydd yn barod ar gyfer gwerthusiad trylwyr (megis hapdreial rheoledig).

Mae hynny'n bwysig, oherwydd mae plant yn haeddu gwasanaethau yr ydym wedi'u profi ac yr ydym yn hyderus yn eu gallu i weithio'n dda. Drwy fuddsoddi mewn tystiolaeth, gallwn adeiladu ein gwybodaeth a gwneud yn siŵr ein bod yn cynnig y gefnogaeth orau posibl i bob plentyn. Bydd mathau hyn o werthusiadau hefyd yn eich helpu chi fel partner YEF, oherwydd byddwch yn gallu defnyddio'r hyn a ddysgw'n ni i ddysgu a gwella eich prosiect.

Sut mae modd dysgu am yr hyn sy'n gweithio?

Os ydych yn gwneud cais am grant *Cyfle arall: symud oddi wrth y system gyfiawnder droseddol*, mae'n siŵr bod gennych eisoes lawer o brofiad yn cynnig gweithgareddau i blant a phobl ifanc sydd â risg uchel o ddod ynghlwm wrth drosedd.

Rydym wedi dod â'r rhan hon at ei gilydd i'ch helpu chi i ddod o hyd i dystiolaeth bresennol all fod o gymorth i chi wrth baratoi eich cais. Rydym yn eich annog i fod mor benodol â phosibl wrth egluro sut mae eich gweithgareddau arfaethedig wedi cael eu llywio gan brofiadau a gwerthusiadau blaenorol.

Ein Map Tystiolaeth a Bylchau

Ein Map Tystiolaeth a Bylchau (yn Saesneg) yw adnodd mwya'r byd sy'n mapio tystiolaeth ar beth sy'n gweithio i gadw plant yn ddiogel rhag bod ynghlwm wrth drais.

Os ydych yn ceisio dod o hyd i astudiaethau ar brosiectau sy'n debyg i'ch un chi, rydym yn gobeithio y bydd yn adnodd defnyddiol i'ch helpu i ddod o hyd i dystiolaeth bresennol a bylchau. Mae'n rhoi darlun gweledol i chi o nifer ac ansawdd y dystiolaeth ar gyfer rhaglenni gwahanol. Mae'n ffordd rhwydd i chwilio a dod o hyd i astudiaethau perthnasol o bob rhan o'r byd.

Rydym yn gwybod ei fod yn eithaf technegol, a dyna pam rydym hefyd yn datblygu'r Pecyn Cymorth YEF. Mae hwn yn adnodd ar-lein hygyrch, fydd ar gael o fis Mehefin 2021. Yn y cyfamser, rydym wedi creu canllaw ar sut i ddefnyddio'r Map Tystiolaeth a Bylchau (yn Saesneg).

Mae'n bwysig cydnabod hefyd, er bod y Map Tystiolaeth a Bylchau'n dangos pa dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau gwahanol, ni all roi gwybod os yw rhaglen wedi llwyddo i gyflawni'r canlyniadau bwriedig yn effeithiol. Er mwyn cael gwybod hyn, bydd angen i chi ddarllen yr astudiaethau eu hunain.



Lleoedd eraill i fynd iddynt i gael gwybod beth sy'n gweithio

Mae llawer o fannau eraill ble gallwch ddysgu am dystiolaeth bresennol ynghylch beth sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag bod ynghlwm wrth drais. Dyma ddau le yr ydym ni'n eu hargymhell er mwyn dysgu mwy am ddargyfeirio:

Y Ganolfan Arloesedd Cyfiawnder

Mae'r Ganolfan Arloesedd Cyfiawnder yn gwneud gwaith ymchwil ar sut mae'r system gyfiawnder yn gweithio, a sut mae modd ei gwella.

Gallwch ddarllen eu hadroddiadau, adolygiadau llenyddiaeth a phapurau briffio ar ddargyfeirio ieuentid [yma](#).

Pecyn Cymorth Lleihau Trosedd Coleg yr Heddlu

Fel ni, mae Coleg yr Heddlu yn aelod o'r [Rhwydwaith Beth Sy'n Gweithio](#). Maent yn ymchwilio tystiolaeth ar leihau troseddau drwy eu [Pecyn Cymorth Lleihau Trosedd](#) (yn Saesneg).

Gallwch chwilio am y dystiolaeth y maent wedi'i chasglu ar leihau troseddu ymysg plant a phobl ifanc [yma](#) (yn Saesneg).

Sut fyddwn ni'n asesu eich cais



2. Sut fyddwn ni'n asesu eich cais

Pan fydd ein haseswyr yn darllen eich cais, byddant yn chwilio am wyth o bethau.

1 Canlyniad gwerth chweil

Rydym yn ceisio asesu, os byddwch yn cyflawni'ch prosiect yn dda, a fydd y canlyniad yr ydych yn gobeithio ei gyflawni'n atal plant rhag dod ynghlwm wrth drais.

2 Os caiff ei gyflawni'n dda, pa mor debygol yw'r prosiect o gyflawni'r canlyniad

Rydym yn ceisio pennu a yw'r prosiect yn debygol o weithio. Er mwyn asesu hynny, rydym yn gofyn dau o bethau i'n hunain:

- a. Ydych chi wedi egluro'n glir beth mae'r prosiect yn ei gynnwys, a sut mae'n arwain at y newid yr hoffech ei weld i'r plant yr ydych yn gweithio gyda nhw? Weithiau, gelwir hyn yn theori newid, sef dull sy'n eich helpu i ddisgrifio eich targedau hir dymor, a mapio am yn ôl i egluro sut fydd eich prosiect yn cyflawni hynny. Mae gennym ddiddordeb mewn deall beth mae'r dystiolaeth bresennol yn ei ddweud am debygolrwydd eich gweithgareddau dewisol o fod yn llwyddiannus, pa mor glir y gallwn ddeall y gweithgareddau yr ydych wedi'u cynllunio, ac a yw'r cyfnod amser yr ydych yn bwriadu glynu ato er mwyn cynnal y gweithgareddau i weld yn rhesymol.
- b. Beth mae dystiolaeth yn ei ddweud am ba mor effeithiol y mae'r prosiect yn debygol i fod? Byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau lle mae dystiolaeth bod modd gweithredu'ch prosiect yn llwyddiannus, a'i fod yn arwain at newid positif i blant a phobl ifanc.

3 Anelu at gyrraedd y math cywir o bobl ifanc

Rydym yn ceisio asesu a yw'r math o blant a phobl ifanc yr ydych yn bwriadu gweithio gyda nhw ar un o bedwar pwynt allweddol cyn cynnal gweithrediadau llys ar gyfer trosedd:

- a. Plant sydd heb eu harestio, ond sydd wedi cael eu hadnabod gan yr heddlu neu gyrrff statudol eraill fel rhai sydd â risg uchel o ddod ynghlwm wrth drosedd
- b. Ar bwynt anaf oherwydd digwyddiad treisgar
- c. Ar bwynt arestio
- d. Cyn gweithrediadau'r llys (er enghraifft mewn gwrandawriad penderfynu allan o'r llys neu erlyniad wedi'i ohirio)

4 Tebygol o arwain at newid yn y dyfodol

Rhan graidd o strategaeth YEF yw graddio'r prosiectau yr ydym yn eu hystyried fel rhai sy'n gweithio. Os gall prosiect ddangos ei fod yn effeithiol, byddwn yn ceisio ei ehangu. Gallai hynny gynnwys ehangu'r ddarpariaeth bresennol neu efelychu prosiectau mewn lleoliadau newydd ar draws eu rhwydweithiau.

Dyna pam y byddwn yn asesu, os dangosir bod eich prosiect yn gweithio, a fyddai'n bosibl dechrau cyflawni'r gweithgaredd mewn ardaloedd newydd, darbwyllo sefydliadau eraill i ddysgu o'ch gwaith, neu ddylanwadu ar eraill i newid y ffordd maent yn gweithio er budd pobl ifanc.

5 Yn debygol o gyrraedd y math cywir o bobl ifanc

Rydym yn ceisio asesu a oes gennych brofiad o gyrraedd y math o blant yr ydych yn gobeithio gweithio gyda nhw, ac oes gennych ddulliau credadwy a realistig ar gyfer ymgysylltu â nhw yn eich prosiect.

6 Gallu cyflawni

Rydym yn ceisio asesu pa mor debygol yw hi y byddwch yn gallu cyflawni eich cynnig. I wneud hyn, byddwn yn edrych ar eich profiad blaenorol, y gefnogaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth yr ydych yn eu rhoi i staff cyflawni, a'ch dealltwriaeth o'r risgiau amrywiol a sut i'w lleddfu.

7 Addas ar gyfer gwerthuso

Rydym yn ceisio asesu a fyddwn yn gallu gwerthuso'r hyn rydych yn ei wneud yn briodol neu beidio. Mae hyn yn rhannol yn ymwneud â sicrhau y byddwch yn gallu cyrraedd ac ymgysylltu â grŵp digon mawr o blant erbyn diwedd y ddwy flynedd o gyllid, fydd yn ein galluogi i gynnal hapdreial rheoledig (neu werthusiad manwl arall). Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau fydd yn barod ar gyfer y mathau hyn o werthuso cyn gynted â phosibl.

8 Gallu cyflawni ar gyfer y nifer gywir o blant a phobl ifanc

Rydym yn ceisio asesu a fyddwch yn gallu gweithio gyda digon o blant fel bod modd i ni gynnal hapdreial rheoledig (neu werthusiad manwl arall).

Mae mwy o wybodaeth am yr adrannau y byddwn ni'n edrych arnyn nhw pan fyddwn ni gwneud yr asesiadau hyn yn y Sut i wneud cais: sut i ymateb i'n cwestiynau - canllaw cam wrth gam.

Sut i wneud cais: defnyddio ein porth ar-lein



3. Sut i wneud cais: defnyddio ein porth ar-lein

Pan fyddwch wedi meddwl am y dystiolaeth a sgôp y rownd grant hon, gallwch ddechrau ar eich cais ar-lein.

Cam un: dod o hyd i'r ffurflen

Cliciwch y ddolen hon fydd yn mynd â chi i'n porth ar-lein. Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio Google Chrome fel porwr os gallwch chi.

Cam dau: nodi eich gwybodaeth

Dechreuwch nodi'r wybodaeth. Mae gennym ganllawiau cam wrth gam ar sut i ymateb i bob cwestiwn yn y canllawiau hyn - gweler Sut i wneud cais: sut i ymateb i'n cwestiynau - canllaw cam wrth gam.

Pan fyddwch yn ysgrifennu, **peidiwch** â defnyddio'r botymau ymlaen ac yn ôl ar eich porwr oherwydd mae'n bosib y byddwch yn colli'ch gwaith. Yn hytrach, defnyddiwch y botymau **Nesaf** a **Blaenorol** i symud drwy'r ffurflen.

Cam tri: arbed a dod yn ôl at eich gwaith

Cofiwch arbed eich gwaith wrth i chi fynd ati i'w gyflawni. Gallwch arbed eich gwaith ar unrhyw adeg a dod yn ôl ato nes ymlaen, drwy glicio'r botwm **Arbed** ar bob tudalen. Pan fyddwch yn arbed, byddwch yn derbyn e-bost fydd yn cynnwys cyfrinair. Gallwch ddefnyddio'r cyfrinair i ddod yn ôl at y ffurflen a pharhau gyda'r cais.

Cam pedwar: anfon eich cais

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen, cofiwch glicio **Cyflwyno!** Ni fyddwn yn derbyn eich cais os nad ydych chi'n gwneud hyn.

Pan fyddwch wedi anfon eich ffurflen gyflawn, byddwch yn derbyn e-bost gennym ni'n cadarnhau ei bod wedi'i derbyn. Byddwch hefyd yn gallu arbed a lawrlwytho eich cais, fel y gallwch ei ddefnyddio ar gyfer eich cofnodion personol.

Data a phreifatrwydd

Os hoffech gael gwybod sut rydym yn storio a defnyddio'r data yn eich ffurflen, darllenwch ein polisi preifatrwydd data. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am rannu data rhwng perchnogion grantiau a gwerthuswyr, gallwch ddarllen y canllawiau ar ein harchif data diogel (yn Saesneg).



Cysylltwch â ni

Os ydych yn ei chael hi'n anodd defnyddio'r ffurflen ar-lein, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ar bob cyfrif! E-bostiwch ni ar grants@youthendowmentfund.org.uk a byddwn yn gwneud ein gorau i helpu.

**Sut i wneud cais: sut i
ymateb i'n cwestiynau -
canllaw cam wrth gam**



4. Sut i wneud cais: sut i ymateb i'n cwestiynau - canllaw cam wrth gam

Gwybodaeth am y ffurflen gais

Mae dau gam i'r ffurflen gais.



Cam un: gwiriad cymhwysedd cyflym

Rydym yn awyddus i wneud yn siŵr bod y cyllid hwn yn addas i chi. Rydym yn gwybod bod sefydliadau'n buddsoddi llawer o amser ac adnoddau i ddatblygu cynigion a gwneud ceisiadau am gyllid. Dyna pam y bydd rhan gyntaf ein ffurflen gais yn gwirio eich bod yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd cyn i ni ofyn i chi lenwi'r cais llawn.



Cam dau: y cais llawn

Mae saith rhan i'r broses ymgeisio llawn. Mae rhai o'r rhannau yno i'n helpu ni i ddeall mwy amdanoch chi fel yr ymgeisydd (megis manylion am eich sefydliad ac unrhyw sefydliadau yr ydych yn cyflwyno cais gyda nhw), tra bydd rhannau eraill yn cyflwyno gwybodaeth fydd yn ein helpu i asesu cryfder eich cais.

Yn y canllawiau hyn, byddwn yn nodi'n glir pa rannau y byddwn yn eu defnyddio i'n helpu i asesu eich cais, beth fyddwn ni'n ei asesu a'r wybodaeth yr ydym yn gofyn i chi ei darparu mewn ymateb i bob cwestiwn.

Cam un: gwiriad cymhwysedd cyflym

Yn y rhan hon, ry'n ni'n awyddus i sicrhau eich bod chi'n bodloni'r holl ofynion cymhwysedd ar gyfer y rownd hon. Os nad ydych yn bodloni un o'r meini prawf, bydd testun cymorth yn ymddangos i egluro pam nad ydych chi'n gymwys y tro hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gymhwysedd, anfonwch e-bost at grants@youthendowmentfund.org.uk.

Fel arall, cyfeiriwch at ein prospectws neu cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr i gael gwybod am gyfleoedd gyda'r Gronfa Gwaddol Ieuencid all fod yn addas i chi yn y dyfodol.

Cwestiynau:

1. Yw eich sefydliad wedi cofrestru? Er enghraifft, ydych chi'n elusen gofrestredig, cwmni, corff statudol neu CIC?

Mae'n rhaid i chi fod wedi cofrestru i dderbyn cyllid gan y Gronfa Gwaddol Ieuencid. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau gan unigolion neu grwpiau sydd heb gofrestru.

2. Ydych chi'n gwneud cais am gyllid ar gyfer gwaith yng Nghymru a/neu Lloegr?

Fel y Gronfa Gwaddol Ieuencid, byddwn ond yn rhoi grantiau i sefydliadau sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr. Ni allwn roi cyllid i sefydliad neu unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gynnal y tu allan i Gymru a Lloegr.

3. Ai chi yw'r prif sefydliad sy'n cyflwyno'r cais grant i YEF?

Er mwyn sicrhau nad ydym yn derbyn llawer o geisiadau ar gyfer yr un prosiect, byddwn ond yn derbyn ceisiadau gan y prif sefydliad yn eich consortiwm. Os ydych yn gwneud cais fel consortiwm o bartneriaid, y prif sefydliad yw'r un fydd yn gyfrifol am lofnodi'r cytundeb gyda YEF ac yn adrodd i ni'n rheolaidd.

Os ydych yn gwneud cais fel rhan o gonsortiwm, ond nid chi yw'r prif sefydliad, peidiwch â llenwi rhagor o'r ffurflen gais a chysylltwch â'r arweinydd, fydd yn cyflwyno'r cais ar eich rhan. Ni fydd gwneud cais mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill yn golygu y byddwch chi'n fwy neu'n llai tebygol o gael dyfarniad grant. Yr hyn sydd fwyaf pwysig yw eich bod chi'n gallu dangos tystiolaeth sy'n cyfleu pam y byddai'ch partneriaeth chi'n darparu prosiect dargyfeirio sy'n effeithiol yn atal plant a phobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais.

4. Ydych chi'n credu bod eich gwaith chi'n lleihau'r tebygolrwydd o bobl ifanc yn cyflawni gweithred dreisgar yn nes ymlaen yn eu bywydau?

Cenhadaeth y Gronfa Gwaddol Ieuencid yw atal plant a phobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais. Gyda'r cylch cyllid hwn, ein nod yw dysgu pa ymagweddau dargyfeirio sy'n gweithio orau o ran atal plant a phobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed rhag dod ynghlwm wrth drais. Mae'n hanfodol eich bod chi'n credu y bydd eich prosiect yn ein helpu ni i fwrw'r targed cyffredinol hwn.

5. A fydd mwyafrif y plant yr ydych yn bwriadu gweithio gyda nhw yn y cynnig hwn rhwng 10 ac 17 oed?

Mae plant a phobl ifanc wrth wraidd cenhadaeth y Gronfa Gwaddol Ieuencid. Yn y cylch grantiau hwn, rydym yn ceisio dysgu pa ymagweddau dargyfeirio sy'n gweithio orau i atal plant rhwng 10 ac 17 oed rhag dod ynghlwm wrth drais.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r mwyafrif (mwy na 80%) o'r plant yr ydych yn gweithio gyda nhw fod rhwng 10 ac 17 oed. Fel arall, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y cyllid yn y cylch hwn.

6. Bydd pob prosiect a ariennir gan YEF yn cael ei werthuso'n annibynnol i'n galluogi ni i ddysgu mwy beth sy'n gweithio, a beth sydd ddim yn gweithio i atal plant rhag dod ynghlwm wrth drais. Bydd angen i chi weithio gyda phartner gwerthuso drwy gydol y prosiect. Ydych chi'n fodlon gwneud cais ar y sail honno?

Darllenwch fwy am beth mae'n ei olygu i fod yn berchennog grant a ariennir gan YEF a gweithio gyda gwerthuswr yn rhan 4 o'n [prosbectws](#).

Mae bod yn bartner YEF yn ymrwymiad mawr; er mwyn ein helpu ni i gyflawni ein cenhadaeth i ddysgu beth sy'n gweithio, bydd angen i chi weithio'n agos gyda'ch gwerthuswr. Os nad ydych yn fodlon ar gael eich gwerthuso'n annibynnol, nid yw'r cyllid yn addas i chi.

7. Rydym yn chwilio am weithgareddau sy'n canolbwyntio ar y cylch grantiau a nodir uchod. A yw'ch gwaith chi'n canolbwyntio ar y thema hon?

Ry'n ni'n bwriadu ariannu prosiectau dargyfeirio, sy'n cefnogi plant ar bwyntiau allweddol yn eu bywydau. I gael rhagor o wybodaeth am ffocws y cylch grantiau hwn ac i weld a yw'ch weithgaredd chi'n addas i'r ffocws hwn, edrychwch ar adran 6 o'n [prosbectws](#).

Byddwn ond yn rhoi grantiau i brosiectau sy'n amlwg yn bodloni'r meini prawf yr ydym wedi'u gosod ar gyfer y cylch hwn. Os nad ydych yn siŵr a yw eich prosiect yn bodloni ein meini prawf, gallwch anfon e-bost at grants@youthendowmentfund.org.uk. Gall fod cyfleoedd eraill, nawr neu yn y dyfodol agos, allai fod yn fwy addas ar gyfer eich prosiect. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar gyfer ein cynlluniau yn 2021 yn rhan 5 o'n [prosbectws](#).

8. Nod y Gronfa Gwaddol Ieuenctid yw dysgu beth sy'n gweithio orau i helpu pobl ifanc. Rydym wedi ymrwymo i roi'r ymchwil gorau posibl i bobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae hyn yn golygu bod angen i ni weithio mewn ffordd benodol. Un o'r pethau sydd angen i ni allu eu gwneud yn ein gwerthusiadau yw bod â 'grŵp rheoli' o bobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan yn y gweithgaredd. Mewn llawer o achosion, mae angen dyrannu pobl ifanc i'r 'grŵp rheoli' hwn ar hap, fel arall does dim ffordd o wybod mewn gwirionedd a yw rhywbeth yn gweithio go iawn. Dewiswch 'ie' i gadarnhau eich bod yn deall mai dyma'r ffordd rydym yn gweithio, neu 'na' os nad ydych yn awyddus i'n helpu i wneud hyn.

Darllenwch ragor ynghylch pam yr ydym wedi ymrwymo i werthusiadau manwl sy'n cynnwys grŵp rheoli yn rhan 4 o'n [prosbectws](#). Ry'n ni'n awyddus i ariannu gwerthusiadau manwl, fel hapdreialon rheoledig. Yn y gwerthusiadau hyn, bydd un grŵp yn cymryd rhan yn y prosiect, ac ni fydd y grŵp arall. Drwy edrych ar y ddau grŵp cyn ac ar ôl i chi weithio i gefnogi pobl ifanc, byddwn yn gallu pennu effaith eich prosiect. Os nad ydych yn fodlon ar gymryd rhan mewn gwerthusiad sy'n cynnwys grŵp hadreial rheoledig, nid yw ein cyllid yn addas i chi.

9. Nod y Gronfa Gwaddol Ieuenctid yw dysgu beth sy'n gweithio orau i helpu pobl ifanc. Rydym wedi ymrwymo i roi'r ymchwil gorau posibl i bobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae hyn yn golygu bod angen i ni weithio mewn ffordd benodol. Un o'r pethau y mae angen i ni allu eu gwneud yw un ai casglu data ar enwau a chyfeiriadau plant neu eu rhif Cronfa Ddata Disgyblion Cenedlaethol (yn yr ysgol). Mae hyn yn ein galluogi i dracio effaith hirdymor y prosiect, yn hytrach na'r effaith byrdymor yn unig. Dewiswch 'ie' i gadarnhau eich bod yn deall ein bod yn gweithio fel hyn, neu 'na' os nad ydych yn awyddus i'n helpu ni i wneud hyn.

Er mwyn sicrhau y gallwn ddeall beth sy'n gweithio, mae angen i ni gasglu a storio data fel y gallwn ddilyn cynnydd y plant sydd wedi cael cefnogaeth gan ein prosiectau yn y dyfodol. I ddysgu mwy am y data y byddwn yn ei gasglu, sut y byddwn yn ei storio a sut y byddwn yn ei gadw'n ddiogel, gallwch ddarllen yr adnoddau ar [ein gwefan](#). Bydd yr holl ddata a gesglir yn ddiennw ac yn cael ei storio'n ddiogel fel nad oes modd olrhain hunaniaeth plentyn drwy gymryd rhan yn un o'n gwerthusiadau. Os nad ydych yn fodlon neu'n methu â chasglu data'r cyfranogwyr yn eich prosiect, nid yw ein cyllid yn addas i chi.

10. Yn y cylch hwn, mae gennym ddiddordeb mewn gweithgareddau sy'n ceisio gweithio gyda phlant ar un o bedwar pwynt allweddol cyn cynnal gweithrediadau llys ar gyfer trosedd yn unig. Pa un o'r canlynol y mae eich gwaith chi'n ei dargedu?

Byddwch yn gallu dewis o bedwar opsiwn:

- 1** Heb eu harestio, ond wedi cael eu hadnabod gan yr heddlu neu gyrrff statudol eraill fel rhai sydd â risg uchel o ddod ynghlwm wrth drosedd
- 2** Ar bwynt anaf oherwydd digwyddiad treisgar
- 3** Ar bwynt arestio
- 4** Cyn gweithrediadau'r llys (er enghraifft mewn gwrandawriad penderfynu allan o'r llys neu erlynad wedi'i ohirio)

11. Yn y cylch hwn, mae gennym ddiddordeb uniongyrchol mewn ariannu prosiectau fydd yn cynnwys atgyfeiriad gan gorff statudol perthnasol, dewiswch pa gorff statudol sydd ynghlwm wrth broses atgyfeirio eich prosiect chi (sylwch y gall prosiectau gael eu cyflawni gan elusennau, gwasanaethau cyhoeddus, neu sefydliadau sector preifat).

Er bod modd i ystod o sefydliadau gwahanol gyflwyno ceisiadau, rhaid i blant gael eu cyfeirio at eich prosiect gan wasanaeth neu gorff cyhoeddus.

Os nad yw'r plant yn cael eu hatgyfeirio i'ch prosiect gan yr Heddlu, Uned Lleihau Trosedd, Tîm Troseddu Ieuencid Awdurdod Lleol, ymddiriedolaeth gofal iechyd aciwt neu wasanaeth cyhoeddus arall, nid yw'r cylch cyllid hwn yn addas i chi. Os nad ydych yn siŵr a fyddai eich pwynt atgyfeirio'n dod o dan ddiffiniad 'gwasanaeth cyhoeddus', anfonwch e-bost at grants@youthendowmentfund.org.uk cyn parhau â'ch cais.

12. Ydych chi wedi darllen y dogfennau canllaw YEF perthnasol?

Mae ein dogfennau canllaw ar gael i'ch helpu chi i wneud y penderfyniad gorau ynghylch a yw cyllid gan y Gronfa Gwaddol Ieuencid yn addas i chi.

Ein nod yw sicrhau eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl fel partner YEF. Cadarnhewch eich bod wedi darllen ein [prospectws](#) a'n [canllawiau](#) ar ein harchif (yn Saesneg).

Cam dau: cais llawn

Mae ein cais llawn yn cynnwys y saith adran ganlynol:

1. Eich sefydliad

Rydym eisiau cael gwybod am eich rôl fel y person sy'n cyflwyno'r cais ar ran eich sefydliad, y math o sefydliad yr ydych yn gweithio iddo, neu os ydych yn gweithio mewn partneriaeth a phwy yw'r partneriaid hynny. Mae'r adran hon er gwybodaeth yn unig, ac ni fydd yn cael ei defnyddio i asesu cryfder eich cais.

2. Gwella amrywiaeth y sefydliadau yr ydym yn eu hariannu

Rydym wedi ymrwmo i fod yn ariannwr amrywiol a chynhwysol. Rydym yn credu bod amrywiaeth yn gyrru arloesedd, yn cynyddu amrywiaeth ffyrdd o feddwl a phrofiad ac yn ein helpu ni i gynrychioli a gwasanaethu orau'r bobl ifanc yr ydym yn bwriadu eu cefnogi.

Mae'r adran hon yn gofyn i chi rannu gwybodaeth am faint eich sefydliad, amrywiaeth eich tîm arweinyddiaeth, yr amrywiaeth, oedran a rhyw'r plant yr ydych yn gobeithio gweithio gyda nhw a ble fydd eich gweithgaredd yn cael ei gynnal. Ni ddefnyddir y wybodaeth hon i asesu cryfder eich cais, ac ni fydd ein haseswyr yn gweld y wybodaeth hon wrth adolygu eich cynnig. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i ddysgu mwy am y sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid ac sy'n ennill grantiau. Bydd yn ein helpu i wella ein harferion, fel ein bod yn gweithio mewn partneriaeth gydag ystod amrywiol o sefydliadau.

3. Deall y gweithgaredd

Yn yr adran hon, ein nod yw deall manylion eich prosiect. Rydym am gael gwybod am y gweithgareddau yr ydych yn bwriadu eu cynnal, pa mor hir bydd y gweithgareddau hynny'n para, ble rydych yn bwriadu eu cynnal nhw ac, yn hanfodol, pa ganlyniad yr ydych yn gobeithio ei gyflawni.

Rydym yn chwilio'n benodol am geisiadau sy'n disgrifio'n glir iawn y profiad a'r amserlen *o bersbectif y plentyn*. Beth maen nhw'n ei brofi, ac ym mha drefn? Mae hyn yn debygol o fod yn haws i'w gyflawni os yw eich cais yn disgrifio un daith i'r rhan fwyaf o bobl ifanc (er enghraifft, os ydyn nhw i gyd yn mynd i gyfres o sesiynau CBT pob wythnos, ac yn cwrdd â mentor bob pythefnos). Mae gennym lai o ddiddordeb mewn ceisiadau am gyllid o bersbectif ymarferwyr neu ar gyfer gweithgaredd nad yw'n ymyrraeth uniongyrchol gyda pherson ifanc (er enghraifft, newidiadau i'r system). Fodd bynnag, bydd gennym ddiddordeb mewn hyn mewn cylchoedd diweddarach.

4. Eich tystiolaeth a hanes presennol

Yn yr adran hon, rydym yn ceisio deall pa mor debygol yw eich prosiect o lwyddo a pha mor debygol ydyw y bydd eich gweithgaredd yn arwain at ei newid bwriedig. Yn ein cylchoedd grantiau â thema, byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau gan brosiectau sydd eisoes yn cyflawni, sy'n gallu dangos ychydig o dystiolaeth bresennol eu bod nhw'n gweithio ac sy'n barod ar gyfer gwerthusiad manwl (fel hapdreial rheoledig). Nid yw hyn yn golygu na fyddwn yn ystyried ceisiadau yn ystod cam gwerthuso cynharach, ond byddwn yn chwilio am brosiectau fyddai'n barod ar gyfer treial manwl o fewn dwy flynedd.

5. Risg

Mae pob prosiect yn peri risg. Yn y rhan hon, rydym eisiau gwneud yn siŵr eich bod wedi meddwl yn glir am y risgiau o ran cyflawni, a sut gallwch chi eu lleddfu nhw.

Byddwn yn gofyn i chi am y risgiau sydd ynghlwm wrth gyrraedd y bobl ifanc yr ydych yn bwriadu gweithio gyda nhw, y risgiau sydd ynghlwm wrth weithio yn eich lleoliad, risgiau cyflawni a risgiau rheoli prosiect. Byddwn hefyd yn awyddus i ddeall eich profiad o gyflawni'r math hwn o weithgaredd yn y gorffennol, a'ch profiad o weithio gyda'r grŵp o blant yr ydych yn ceisio ei gyrraedd.

6. Y bobl ifanc y byddwch yn gweithio gyda nhw

Yn y rhan hon, rydym yn ceisio datblygu dealltwriaeth fanwl o'r mathau o blant rydych yn gobeithio gweithio gyda nhw, a nifer y plant rydych yn bwriadu gweithio gyda nhw. Mae'n bwysig ein bod yn ariannu sefydliadau sy'n barod ar gyfer gwerthusiad manwl o'u gwaith, neu fydd yn barod ar gyfer hynny o fewn dwy flynedd. Am y rheswm hwnnw, rydym yn edrych yn ofalus ar nifer y plant rydych yn credu y gallwch chi eu cyrraedd, oherwydd mae'n bwysig bod maint sampl digon mawr ar gyfer gwerthuso.

7. Cyllideb

Yn y rhan hon, byddwn yn gofyn i chi roi crynodeb o'r hyn rydych yn bwriadu ei wario ar y prosiect hwn. Ar y pwynt hwn, ry'n ni'n awyddus i gael gwybod faint yr ydych chi'n credu y byddwch yn ei wario ar lefel uwch, fesul blwyddyn, er mwyn cyflawni eich prosiect yn ôl y bwriad (gan gynnwys costau prosiect, costau gorbenion, costau staff a chostau offer).

Mae'r broses ymgeisio gyda'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid yn iteraid. Os ydych yn bwrw ymlaen i ail gam y cais, byddwch yn cael eich paru gyda gwerthuswr, a bydd y ddau ohonoch yn gweithio gyda'ch gilydd ar ddyluniad prosiect terfynol. Rydym yn cydnabod y byddai newidiadau i'ch cynllun yn golygu newidiadau i'ch cyllideb. Dyna pam nad ydym yn gofyn am gyllideb fanwl ar hyn o bryd.

I gael rhagor o fanylion ar yr union bethau y byddwn yn chwilio amdanynt mewn ymateb i bob cwestiwn yn yr adrannau uchod, gweler y rhan nesaf.

Canllaw cam wrth gam ar ateb y cwestiynau yn y cais llawn

Deall y gweithgaredd

(yn dechrau o gwestiwn 30 yn y ffurflen gais)

30. Dewiswch y canlyniadau i bobl ifanc y mae'r prosiect yn ceisio dylanwadu arnynt (e.e. lleihau troseddu, lleihau problemau ymddygiad, cynyddu hunan-barch)

- ♦ Byddwch yn cael rhestr o ganlyniadau cyffredin sy'n gysylltiedig â llwyddo i atal plant rhag dod ynghlwm wrth drais .
- ♦ Gallwch ddewis mwy nag un eitem ar y rhestr. Dewiswch y rhai sy'n berthnasol yn unig. Byddai dewis pob opsiwn yn awgrymu nad ydych yn sicr ynghylch pwrpas eich gwaith.

31. Os oeddech o'r farn fod y rhestr uchod yn gyfyngedig, disgrifiwch y newid yr ydych chi'n credu y mae eich gweithgaredd yn ei roi ar waith i bobl ifanc, fydd yn eu gwneud nhw'n llai tebygol o gyflawni trais yn nes ymlaen yn eu bywydau? (Dim mwy na 100 gair)

- ♦ Os nad oedd eich deiliant ar y rhestr uchod, gallwch ddisgrifio'r newid yma yn y ffurflen testun rhydd.
- ♦ Os yw'n bosibl, crynhowch y newid fel deiliant mewn 1-3 gair i'n helpu ni i ddeall beth rydych yn bwriadu ei gyflawni mewn gwirionedd.
- ♦ I gael rhagor o wybodaeth ar ffactorau sy'n ymwneud â risg gynyddol o ddod ynghlwm wrth drais, neu ddiogelu yn hyn o beth, gallwch ddarllen ein [papur briffio Beth Sy'n Gweithio](#).

32. Yn y cylch hwn, mae gennym ddiddordeb penodol mewn ariannu a dysgu am weithgaredd sy'n rhan o'r categorïau canlynol. Dewiswch pa categori sy'n berthnasol i'ch gweithgaredd chi.

- ♦ Rydym wedi creu rhestr o'r mathau mwyaf cyffredin o weithgareddau yr ydym yn rhagweld y byddwn yn eu hariannu, fodd bynnag, rydym yn deall bod rhagor o categorïau o weithgareddau all gyflawni'r deiliant bwriedig.
- ♦ Os nad yw eich categori yn y rhestr, rhowch ddisgrifiad yma yn y ffurflen testun rhydd. Er enghraifft, gall categorïau eraill gynnwys mentora, sgiliau cymdeithasol neu therapïau amgen.
- ♦ Os nad yw eich categori wedi'i restru'n uniongyrchol, ond rydych yn ei nodi, ni fydd hynny'n amharu ar gryfder eich cais. Anogir prosiectau eraill os gallent arddangos graddfa a thystiolaeth o effaith ar ddeiliant sy'n gysylltiedig iawn â dod ynghlwm wrth drais yn nes ymlaen (er enghraifft, ymddygiad ymosodol). I gael rhagor o wybodaeth ar ffactorau sy'n ymwneud â risg gynyddol o ddod ynghlwm wrth drais neu ddiogelu yn hyn o beth, gallwch ddarllen ein [papur briffio Beth Sy'n Gweithio](#).

- ♦ Efallai y byddwch yn rhoi **sgôr uchel** os oes tystiolaeth bresennol y bydd eich gweithgaredd yn gweithio (gan sefydliad arall neu'n gweithio mewn lleoliad arall), os ydych wedi bod yn cynnal y gweithgaredd hwn ers tro ac os oes tystiolaeth gryf ei fod yn gweithio.
- ♦ Efallai y byddwch yn rhoi **sgôr ganolig** os oes gan eich prosiect theori newid cryf gyda chefnogaeth y sail dystiolaeth bresennol, ac rydych wedi casglu data monitro, ymgysylltiad neu foddhad sy'n nodi bod modd gweithredu eich prosiect yn llwyddiannus.
- ♦ Efallai y byddwch yn rhoi **sgôr isel** os yw hwn yn brosiect newydd ar gam arloesedd.

33. Disgrifiwch y gweithgaredd yr ydych yn bwriadu ei gyflawni. Beth yn union yw profiad y plentyn ac amserlen y gweithgareddau o'u persbectif nhw? Rydym yn gofyn y cwestiwn hwn i asesu a yw'r hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud yn debygol o gyflawni'r deiliant sydd gennych dan sylw, felly ceisiwch ddisgrifio mor glir ag sy'n bosibl (Dim mwy na 500 gair).

- ♦ Ceisiwch fod mor glir a chynnwys cymaint o fanylion ag sy'n bosibl. Mae hon yn rhan bwysig iawn o'ch cais.
- ♦ Rhowch ddisgrifiad o'r holl weithgareddau yr ydych yn bwriadu eu cynnal, pwy fydd yn cyflawni'r gweithgareddau hynny, pa mor hir bydd pob gweithgaredd yn para, a pha mor aml y bydd person ifanc yn cyflawni'r gweithgaredd. Mae gennym ddi-ddordeb penodol mewn deall y profiad a'r amserlen o safbwynt y plentyn. Felly rydym yn eich annog i fod mor fanwl â phosibl am y daith y bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn mynd arni drwy gymryd rhan yn eich gweithgareddau.
- ♦ Os yw'n ddefnyddiol i chi rannu eich gweithgareddau fesul cam, gwnewch hynny (cam paratoi, cam cyflawni, cam cadarnhau, er enghraifft).

34. Ym mha leoliadau fydd y gweithgareddau'n cael eu cynnal yn bennaf?

- ♦ Byddwch yn cael rhestr o leoliadau ble byddai modd cynnal eich gweithgaredd.
- ♦ Mae croeso i chi ddewis mwy nag un lleoliad.
- ♦ Os ydych yn dewis mwy nag un lleoliad, eglurwch pam yn yr adran testun rhydd.

35. Ar gyfartaledd, pa mor hir ydych chi'n ei dreulio'n gweithio gyda phlentyn i gyflawni gweithgaredd? Nodwch nifer y misoedd.

- ♦ Atebwch hyn o bersbectif y person ifanc sy'n ymgysylltu gyda'ch gweithgaredd, nid yr amser y mae'n ei dreulio i chi gynnal y gweithgaredd.
- ♦ Er enghraifft, os yw gweithgaredd mentora'n cael ei gynnal am gyfnod o 10 mis (mae eich staff yn ei gynnal am y cyfnod hwn o amser), ond bydd person ifanc yn cael ei fentora am gyfnod o 2 fis, nodwch 2 fis.

Eich tystiolaeth a'ch hanes presennol

36. Bellach, rydych wedi rhoi gwybod i ni am y gwahaniaeth y mae eich gweithgaredd yn ei wneud i bobl ifanc a beth yw eich gweithgaredd. Pa mor hyderus ydych chi y bydd eich gweithgaredd yn arwain at y newid hwn? Beth sy'n gwneud i chi ddewis yr opsiwn hwn? Ceisiwch gynnwys unrhyw eglurhad o sut mae eich gweithgaredd yn achosi'r newid hwn. (Dim mwy na 500 gair). Ceisiwch gynnwys dolen/cyfeirnod at unrhyw dystiolaeth ategol a nodir.

- ◆ Ceisiwch roi adlewyrchiad onest ar sail yr hyn yr ydych eisoes yn ei wybod am effaith eich prosiect.
- ◆ Bydd gofyn i chi ddewis un ai uchel, canolig neu isel i ddangos pa mor hyderus ydych chi y bydd eich gweithgaredd yn arwain at newid. Yna, bydd gofyn i chi lenwi blwch testun rhydd i egluro pam y gwnaethoch chi roi'r sgôr honno. Rhwch ddolen/cyfeirnod ar gyfer unrhyw dystiolaeth neu ffynonellau y cyfeirir atynt.

37. Os hoffech gynnwys unrhyw werthusiadau cyhoeddus o'ch prosiect, nodwch hynny yma yn ogystal ag unrhyw ddolen / cyfeirnod

- ◆ Os yw eich prosiect eisoes wedi cael gwerthusiad annibynnol ac os oes adroddiad ar gael, uwchlwythwch yr adroddiad.
- ◆ Er nad yw hyn yn ofynnol, bydd yn cryfhau eich cynnig.

38. Rydym yn chwilio am geisiadau sy'n benodol yn cyrraedd plant sydd mewn risg uchel o ddod ynghlwm wrth drosedd, sydd wedi bod yn rhan o ddigwyddiad treisgar neu sydd wedi cael eu harestio am drosedd ond nid yw gweithrediadau llys wedi digwydd yn eu herbyn hyd yma. Dwedwch wrthym y math o bobl ifanc yr ydych yn bwriadu gweithio gyda nhw. Dylech gynnwys yma faint o bobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio atoch gan gorff statudol.

- ◆ Ceisiwch roi cymaint o fanylion ag sy'n bosibl am y bobl ifanc yr ydych yn gobeithio gweithio gyda nhw, a'u profiad o'r system gyfiawnder trosedd.
- ◆ Mae cynnwys atgyfeiriad gan gorff statudol i'ch prosiect yn faen prawf gofynnol ar gyfer y cyllid hwn. Sicrhewch eich bod yn egluro'n fanwl sut bydd yr atgyfeiriad hwn yn digwydd.

Risk

39. Yn aml, mae sefydliadau'n ei chael hi'n anodd cyrraedd y plant a'r bobl ifanc y maent yn dymuno gweithio gyda nhw. Beth yw'r risg na fyddwch yn llwyddo i gyrraedd y math o blant yr ydym yn ceisio eu cyrraedd? Beth sy'n gwneud i chi ddewis yr opsiwn hwn? (Helpwch ni i ddeall sut y byddwch yn cyrraedd y plant hyn, a sut byddwch chi'n osgoi mathau eraill o blant yn manteisio ar y gweithgaredd yn lle).

- ◆ Rydym yn gofyn yn benodol i chi ymateb i'r risg o allu cyrraedd, ymgysylltu a chadw plant a phobl ifanc. Mae recriwtio pobl ifanc i brosiectau'n dasg anodd bob amser, felly rydym yn disgwyl y bydd rhai risgiau o ran eich gallu i wneud hyn yn effeithiol. Rydym am sicrhau eich bod wedi meddwl am yr risgiau hyn, a'ch bod wedi'u lleddfu yn y gorffennol.
- ◆ Yn gyntaf, bydd gofyn i chi ddewis un o bum sgôr o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, eithaf uchel, canolig, isel). Yna, bydd gofyn i chi lenwi blwch testun rhydd er mwyn egluro pam y dewisoch chi'r sgôr honno.

- ♦ Yn eich blwch testun rhydd, nodwch beth fydddech chi'n ei wneud i leddfu'r risg hon os oes gennych gynllun ar waith eisoes ar gyfer hyn.

40. Yn aml, mae sefydliadau'n ei chael hi'n anodd cyflawni'r gweithgaredd y maent wedi gwneud cais ar ei gyfer. Beth yw'r risg na fyddwch yn gallu cyflawni'r ymyrraeth hon yn llwyddiannus? Beth sy'n gwneud i chi ddewis yr opsiwn hwn? (Dim mwy na 500 gair)

- ♦ Rydym eisiau i chi ymateb drwy nodi risgiau cyffredinol i weithrediad y prosiect. Gallai hyn gynnwys risgiau megis y gallu i recriwtio'r aelodau staff cywir, gallu cyflawni'r gwaith paratoi mewn modd amserol, risgiau o ran mesurau cadw pellter cymdeithasol parhaus ac ati.
- ♦ Yn gyntaf, bydd gofyn i chi ddewis un o bum sgôr o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, eithaf uchel, canolig, isel). Yna, bydd gofyn i chi lenwi blwch testun rhydd er mwyn egluro pam y dewisoch chi'r sgôr honno.
- ♦ Yn eich blwch testun rhydd, nodwch beth fydddech chi'n ei wneud i leddfu'r risg hon os oes gennych gynllun ar waith eisoes ar gyfer hyn.

41. Pa brofiad sydd gennych o gyflawni'r math hwn o weithgaredd i blant? (Dim mwy na 100 gair)

- ♦ Sicrhewch eich bod chi'n ateb y ddwy ran o'r cwestiwn:
 - ♦ Rhan un: Pa brofiad sydd gennych gyda'r math hwn o weithgaredd?
 - ♦ Rhan dau: Pa brofiad sydd gennych gyda'r math hwn o berson ifanc?
- ♦ Efallai y bydd gennych brofiad gydag un elfen, ond nid y llall. Mae hynny'n iawn, ond gwnewch yn siŵr eich bod chi'n egluro.

42. Mae gennym ddiddordeb yn lefel brofiad y bobl fydd yn cyflawni'r gweithgareddau. Allwch chi roi ychydig o wybodaeth am bwy yw'r bobl hyn (gwirfoddolwyr neu staff â thâl), eu lefel o brofiad ar gyfartaledd, unrhyw hyfforddiant neu gymwysterau proffesiynol sydd ganddynt ac unrhyw gefnogaeth, goruchwyliaeth neu ddatblygiad proffesiynol parhaus y mae angen iddynt eu cael yn rhan o'r rôl? (Dim mwy na 100 gair)

- ♦ Sicrhewch fod eich ateb yn rhoi dealltwriaeth glir i ni o:
 - ♦ gymwysterau a phrofiad eich staff,
 - ♦ yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt cyn dechrau'r ddarpariaeth,
 - ♦ y gefnogaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth barhaus y byddwch yn eu rhoi i'r staff sy'n cyflawni'r gweithgareddau.

43. Yn aml, mae sefydliadau'n ei chael hi'n anodd cyflawni'r gweithgaredd yn y lleoliad sydd ganddynt dan sylw. Beth yw'r risg na fyddwch yn gallu cyflawni'r ymyrraeth hon yn llwyddiannus yn y lleoliad hwn? Beth sy'n gwneud i chi ddewis yr opsiwn hwn? (Dim mwy na 250 gair)

- ♦ Rydym yn gofyn yn benodol i chi ymateb i'r risgiau ynghlwm wrth eich lleoliad (daearyddol a/neu osodiad). Cyfeiriwch at leoliadau daearyddol yn ogystal â chwestiwn 34 wrth ateb y cwestiwn hwn.
- ♦ Yn gyntaf, bydd gofyn i chi ddewis un o bum sgôr o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, eithaf uchel, canolig, isel). Yna, bydd gofyn i chi lenwi blwch testun rhydd er mwyn egluro pam y dewisoch chi'r sgôr honno.
- ♦ Yn eich blwch testun rhydd, nodwch beth fydddech chi'n ei wneud i leddfui'r risg hon os oes gennych gynllun ar waith eisoes ar gyfer hyn.

44. Yn aml, mae sefydliadau'n ei chael hi'n anodd cyflawni'r gweithgaredd gan nad ydynt wedi sylwi ar bethau all fynd o chwith. Heblaw am y pethau yr ydych eisoes wedi'u trafod, beth yw'r brif risg o ran methu â chyflawni'r ymyrraeth hon? Pa mor debygol yw hyn? Pam ydych chi'n nodi'r lefel hon o risg? (Uchafswm o 250 gair)

- ♦ Dyma'ch cyfle i gynnwys unrhyw wybodaeth bellach ynghylch risg yr ydych yn ei rhagweld i'ch prosiect nad oedd yn berthnasol i'r categorïau uchod.
- ♦ Defnyddiwch y rhan hon i amlygu unrhyw risgiau sy'n unigryw i'ch prosiect chi neu'r cyd-destun cyflawni.
- ♦ Yn gyntaf byddwch yn cael blwch testun rhydd lle byddwn yn gofyn i chi nodi'r brif risg o ran methu â chyflawni'r prosiect hwn.
- ♦ Yna, bydd gofyn i chi ddewis un o bum sgôr o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, eithaf uchel, canolig, isel). Yn olaf, bydd gofyn i chi lenwi blwch testun rhydd er mwyn egluro pam y dewisoch chi'r sgôr honno.

Pobl ifanc y byddwch chi'n gweithio gyda nhw

45. Beth yw'r lleiafswm ac uchafswm o ran nifer y plant a phobl ifanc y gallech chi gynnig gweithgareddau iddynt yn ystod blwyddyn olaf y cyllid? Byddai arnom angen i chi weithio gydag o leiaf 100 o bobl yn ystod blwyddyn 3 er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

- ♦ Yn ystod y cylch cyllid hwn, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau fydd yn barod ar gyfer gwerthusiad manwl cyn blwyddyn 3.
- ♦ Y rheswm yr ydym yn gofyn y cwestiwn hwn fel hyn yw oherwydd rydym yn cydnabod ei bod hi'n cymryd peth amser i recriwtio. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i chi fod yn darparu ar gyfer digon o bobl ifanc yn eich prosiect er mwyn i ni fod yn hyderus bod modd cynnal gwerthusiad manwl o'ch gwaith.

46. Mae arnom angen i chi allu gweithio gydag o leiaf 100 o bobl erbyn blwyddyn 3 o'n cyllid. a) Faint o bobl ifanc wnaeth fanteisio ar y prosiect eleni? b) Faint o bobl ifanc fydddech chi'n dymuno cynnig y prosiect iddynt yn y flwyddyn gyntaf? c) Faint o bobl ifanc fydddech chi'n dymuno cynnig y prosiect iddynt yn yr ail flwyddyn? d) Faint o bobl ifanc fydddech chi'n dymuno cynnig y prosiect iddynt yn y drydedd flwyddyn? (os yn gwneud cais am dair blynedd) e) Pa mor uchel yw'r risg na fyddwch yn gallu uwchraddio fel hyn, os byddwn yn cynnig y cyllid? f) Pam ydych chi wedi nodi'r lefel hon o risg? (Dim mwy na 250 gair)

- ♦ Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'n glir nifer y bobl ifanc y byddwch yn darparu ar eu cyfer fesul blwyddyn yn y blychau ateb rhwng a) a d).
- ♦ Byddwch yn blaenoriaethu cynigion fydd yn cyrraedd mwy o blant. Gwnewch eich cynnig yn realistig ond - cyn belled ag y gallwch gynnal yr ansawdd - anelwch at rif uwch yn hytrach na rhif is.
- ♦ Bydd gofyn i chi ddewis un o bum sgôr o restr o opsiynau (uchel iawn, uchel, eithaf uchel, canolig, isel) er mwyn ymateb i ba mor uchel yw'r risg na fyddwch yn gallu uwchraddio eich prosiect i gyrraedd nifer y bobl ifanc yn ôl y bwriad. Yna bydd gofyn i chi lenwi blwch testun rhydd er mwyn egluro pam y dewisoch chi'r sgôr honno. Yn y rhan hon, sicrhewch eich bod hefyd yn nodi pa fesurau sydd gennych ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn dal i chwarae rhan drwy gydol eich prosiect (h.y. ddim yn gadael y prosiect cyn iddo ddod i ben).
- ♦ Mae hyn yn bwysig er mwyn i ni allu gweld bod gennych gynllun realistig ar gyfer uwchraddio eich prosiect i gynnal gwerthusiad llwyddiannus o'ch gwaith.

47. Pe byddai'n dod i'r amlwg bod yr hyn rydych yn ei wneud yn gweithio'n wych, byddem yn awyddus i'w gyflwyno ledled Cymru a Lloegr. Pe byddem am wneud i hynny ddigwydd, beth fyddai'r ffordd rwyddaf i wneud hynny yn eich barn chi? (Dewiswch o'r atebion hyn)

- ◆ Yn gyntaf, bydd gofyn i chi ddewis pa un o'r tri opsiwn isod fyddai'n rhwyddaf i chi ei gyflawni. Yna, bydd gofyn i chi ddewis un o bedair sgôr o restr o opsiynau (amhosibl, anodd, canolig, hawdd) i ymateb i ba mor anodd yr ydych chi'n credu y byddai gweithredu eich opsiwn dewisol. Yn olaf, bydd gofyn i chi lenwi blwch testun rhydd er mwyn egluro pam y dewisoch chi'r sgôr honno.
- ◆ **rydych yn dod yn sefydliad mwy gyda chysylltiadau cenedlaethol:** Yn eich blwch testun rhydd, eglurwch y sgôr a roddoch o ran pa mor anodd fyddai cyflawni hyn, a beth fyddai ei angen arnoch er mwyn uwchraddio'n llwyddiannus i fod yn sefydliad mwy.
- ◆ **mae pobl eraill yn cael hyfforddiant i gyflawni'r hyn rydych chi'n ei wneud:** yn eich blwch testun rhydd, eglurwch pam eich bod yn credu y gallai hyn weithio a pha mor debygol yw hi y gallai sefydliadau eraill ddysgu o'ch gwaith. Yw'r gwaith mor unigryw i chi neu'ch cyd-destun fel y byddech yn ei chael hi'n anodd i sefydliadau eraill efelychu neu addasu i'r hyn rydych wedi'i ddysgu? Neu a yw'n rhywbeth y gallech ei rannu?
- ◆ **Newid o ran polisi fyddai'n arwain at hyn yn dod yn weithgaredd priif-ffrwd:** yn eich blwch testun rhydd, eglurwch y sgôr a roddoch a beth ydych chi'n meddwl fyddai ei angen er mwyn gweld newid polisi yn y maes hwn?

Cyllideb

48. Beth yw cyfanswm gwerth y gyllideb ar gyfer y prosiect hwn?

- ◆ Nodwch gyfanswm gwerth y prosiect o'r dyddiad dechrau i'r dyddiad gorffen, waeth pwy sy'n darparu'r cyllid.

49. Faint o gyfanswm y gyllideb ar gyfer eich gweithgaredd arfaethedig ydych chi'n gofyn amdano gennym ni?

- ◆ Nodwch y swm o gyfanswm y gyllideb uchod yr ydych yn gwneud cais ar ei gyfer gan YEF.
- ◆ Nid yw'n broblem os ydych yn gwneud cais am 100% o'r gyllideb gan YEF ac os yw'r ddau rif yr un peth.
- ◆ Nid yw'n ofynnol i chi ddod o hyd i ffynonellau cyllid eraill er mwyn i'ch prosiect gael ei gymeradwyo ar gyfer grant, a ni fydd yn rhan o sut bydd eich cais yn cael ei asesu. Fodd bynnag, rydym yn eich annog i ddod o hyd i ffynonellau cyllid eraill ar gyfer eich prosiect lle bo'n bosibl. Gall y ffynonellau cyllid hyn gynnwys grantiau eraill, cyfraniadau drwy eich cyllid anghyfyngedig eich hun, neu gefnogaeth mewn nwyddau neu bro bono y mae eich sefydliad yn ei derbyn ar gyfer y gweithgareddau.

50. Faint o gyfanswm y gyllideb ar gyfer eich gweithgaredd arfaethedig sy'n dod o ffynonellau gwahanol?

- ◆ Os nad ydych yn gofyn am 100% o'ch cyllid gan YEF, beth yw'r gwerth mewn £ sy'n cael ei ddarparu gan ffynonellau eraill?
- ◆ Dylai'r ateb i gwestiwn 49 a 50, wedi'u hadio gyda'i gilydd, fod yr un peth â'r ateb i gwestiwn 48.
- ◆ Yna, os nad yw'r swm yn £0, bydd gofyn i chi rannu faint o'r swm hwn sydd eisoes wedi'i godi/ei sicrhau ac o ble mae'r arian yn dod (os ydych yn hunan-ariannu, nodwch enw'ch sefydliad. Os yw'n dod gan roddwr arall, nodwch enw'r sefydliad hwnnw).

51. Llenwch y tabl isod i roi gwybod i ni faint fydd eich prosiect yn costio. Rydym wedi gofyn i chi rannu eich cyfansymiau i bedair rhan:

- ◆ Costau'r prosiect
- ◆ Costau gorbenion (e.e. eich costau swyddfa)
- ◆ Costau staff
- ◆ Costau offer

Gallwch wneud cais ar gyfer hyd at 3 blynedd o gyllid. Os ydych ond yn gwneud cais ar gyfer 1 neu 2 flynedd o gyllid, dim ond y rhannau hynny o'r tabl y bydd angen i chi eu llenwi.

- ◆ Diffiniadau:
 - ◆ Costau'r prosiect: cost uniongyrchol sydd ynghlwm wrth gynnal eich gweithgaredd. (enghraifft: costau teithio)
 - ◆ Costau gorbenion: nid yw'r gost yn talu am y gweithgaredd ei hun, ond mae'n hanfodol ac yn cael ei defnyddio i gefnogi'r amrywiaeth o weithgareddau yn eich sefydliad. (enghraifft: rhent swyddfa, y mae'r gost honno'n cael ei rhannu rhwng y gweithgareddau gwahanol a gynhelir gennych)
 - ◆ Costau staff: dyma'r costau sydd ynghlwm wrth y staff fydd yn gweithio'n uniongyrchol ar eich gweithgaredd. Os yw'n gost staff ar gyfer person cyllid neu aelod o staff swyddfa arall sy'n cefnogi eich sefydliad yn ei gyfanrwydd, dylech gynnwys y gost hon yn y rhan costau gorbenion.
 - ◆ Costau offer: os ydych yn prynu eitem gyda gwerth uned o leiaf £1,000, nodwch hynny yn y rhan hon. Os ydych yn prynu eitem gyda gwerth uned heb fod yn fwy na £1,000, nodwch hynny yn y rhan costau'r prosiect.
- ◆ Sicrhewch eich bod yn rhannu'ch costau fesul blwyddyn (blwyddyn un, blwyddyn dau neu flwyddyn tri).

Beth sy'n digwydd nesaf



5. Beth sy'n digwydd nesaf

Cam un: asesu

Unwaith y byddwch yn cyflwyno'ch cais, bydd yn cael ei anfon at ein tîm o aseswyr cymwys i'w adolygu yn erbyn yr wyth maen prawf a nodir yn rhan Sut byddwn ni'n asesu eich cais o'r canllawiau. Byddwn yn dechrau asesu ceisiadau Felly, rydym yn eich annog i gyflwyno'ch cais cyn gynted ag yr ydych yn barod, yn hytrach nag aros tan y dyddiad cau.

Bydd ein tîm asesu'n creu rhestr fer o geisiadau, fydd yn cael ei hanfon at ein Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso i'w hadolygu.

Cam dau: Adolygiad y Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso

Tasg gyntaf ein Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso yw adolygu gwaith ein haseswyr a chadarnhau'r rhestr olaf o geisiadau fydd yn symud ymlaen i ail gam y broses ymgeisio.

Ar ôl yr adolygiad Pwyllgor hwn, byddwn yn cysylltu â chi gyda chanlyniad eich cais (un ai rydych yn aflwyddiannus neu'n symud ymlaen at gam nesaf y cais). Rydym yn disgwyl i'r cyfathrebu cyntaf fod yng nghanol mis Gorffennaf.

Gwybodaeth am y Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso

Mae ein Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso'n cynnwys grŵp o arbenigwyr annibynnol ym meysydd rheoli grantiau, trais difrifol yn erbyn pobl ifanc ac asesu sail dystiolaeth prosiectau. Rydym yn sicrhau bod cynrychiolaeth amrywiol yn y Pwyllgor o ran oedran, rhywedd, ethnigrwydd, cefndir a lleoliad daearyddol. Ein Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar bopeth yr ydym yn ei ariannu a gwerthuso.

Cam tri: eich paru gyda gwerthuswr

Unwaith y byddwn wedi penderfynu pa brosiectau fydd yn symud ymlaen i'r cam nesaf, byddwn yn paru'r ymgeiswyr hynny gyda gwerthuswr o'n panel gwerthuso. Mae'r panel yn cynnwys oddeutu 35 o sefydliadau ymchwil a phrifysgolion sydd â'r wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd i gynnal gwerthusiadau manwl o weithrediad ac effaith y prosiectau yr ydym yn eu hariannu.

Pwysigrwydd gwerthusiadau annibynnol

Mae ein hymrwymiad i werthusiadau annibynnol yn golygu y byddwn yn sicrhau bod y gwerthusiadau rydym yn eu comisiynu ar wahân i gyflawniad prosiectau. Byddwn yn ceisio eich paru gyda gwerthuswr sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd cywir i ddeall eich prosiect.

Cam pedwar: cyd-ddylunio

Unwaith y byddwch wedi cael eich paru gyda gwerthuswr, byddwch yn dechrau ar gyfnod 'cyd-ddylunio' lle byddwch yn gweithio gyda'ch gwerthuswr i ddylunio cynnig terfynol a dyluniad prosiect sydd â'r cyfle gorau o gyflawni gwerthusiad effeithiol. Golyga hyn y gallai elfennau o'ch dyluniad a'ch cais gwreiddiol newid.

Byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau bod hyn yn digwydd yn ysturlon ac yn strategol, ac os yw hyn yn golygu bod eich cyllideb neu'ch amserlen yn newid, rydym yn deall hynny ac yn cefnogi hynny. Ein nod yw sicrhau bod hyn yn digwydd yn gydweithredol, a'ch bod yn cael eich cefnogi waeth beth fo'r newidiadau y byddwn yn eu rhoi ar waith.

Cam pump: cynnigion terfynol

Unwaith y byddwch yn cyflwyno'ch cynnig terfynol sydd wedi cael ei gyd-ddylunio gyda'ch gwerthuswr, byddwn yn ei anfon at y Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar a ddylid dyfarnu'r grant a'r gwerthusiad.

Bydd hyd y cyfnod 'cyd-ddylunio' yn dibynnu ar y math o werthusiad sydd ei angen gan eich prosiect. Ar gyfer prosiectau fydd yn gofyn am astudiaeth dichonoldeb neu astudiaeth beilot, gallwch ddisgwyl cael gwybod am benderfyniad terfynol ar eich cynnig ar ddechrau mis Hydref. Ar gyfer prosiectau sy'n barod ar gyfer astudiaeth effeithiolrwydd, gallwch ddisgwyl cael gwybod am benderfyniad terfynol ar eich cynnig yng nghanol mis Tachwedd.

Amser

Mae'n bwysig cofio bod y cyfnod rhwng cyflwyno rhan gyntaf eich cais i'r adeg pan fyddwch yn clywed am y canlyniad terfynol (h.y. a fydd YEF yn dyfarnu grant a gwerthusiad ai peidio) yn debygol o fod tua 6 mis. Rydym yn credu bod y cyfnod hwn o amser yn gweithio gyda'ch gwerthuswr a'n tîm yn hanfodol. Gyda'ch gilydd, bydd yn eich helpu i ddatblygu sylfaen cryf i ddysgu beth sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais.



Cam 1

CYFLWYNO CAIS

Beth i'w ddisgwyl:
Bydd angen i sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwneud cais am gyllid gan y Grant Gwaddol Ieuencid gyflwyno cais llawn. Mae rhan o'n cais fydd yn gwirio eich bod yn gymwys i wneud cais cyn rhoi mynediad i chi i weddill y cwestiynau.
Byddwn yn gofyn am wybodaeth am y sefydliad, profiad perthnasol a'r gwaith yr ydych yn ceisio cyllid ar ei gyfer.
Gallwch gael golwg ar rhai o'r cwestiynau a darllen ein canllawiau yma (dolen at y rhan berthnasol yn y ddogfen).

DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU:
14 Mai 2021

CREU RHESTR FER

Beth i'w ddisgwyl:
Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan ein tîm o aseswyr cymwys.
Os yw'n bodloni'r meini prawf a nodir yn ein Canllawiau Gwneud Cais ac i weld yn addawol, byddwn yn eich gwahodd i gyfweiliad. Bydd yn rhoi cyfle i chi ddweud ychydig mwy am eich cynlluniau ac yn ein galluogi i geisio eglurder ar unrhyw beth sy'n aneglur.
Yna, bydd yr aseswyr yn cyflwyno argymhelliad ar geisiadau fydd yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso i gael eu hadolygu. Y Pwyllgor hwn fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar beth fydd yn bwrw ymlaen i'r cam nesaf o'r broses ymgeisio.
Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod am ein penderfyniad ar ôl penderfyniad y Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso. Bydd y rhai ar y rhestr fer yn symud ymlaen i Gam 2 - Cyd-ddylunio.
Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael cyfle i gyflwyno'r ddogfennaeth ganlynol at ddibenion diwydrwydd dyledus:

- Gwybod am y sefydliad, Ymddiriedolwyr a Gwybodaeth ariannol
- Polisi diogelu
- CVau aelodau staff allweddol
- Cyfrifon ariannol

YMGEISWYR AR Y RHESTR FER YN CAEL GWYBOD:
Canol Gorffennaf 2021

MYND AMDANI

Beth i'w ddisgwyl:
Yn ystod Cam 2, byddwch yn cael eich paru gydag un o'n gwerthuswyr cymwys fydd yn gweithio gyda chi i gyd-ddylunio cynnig manylach a chynllun gwerthuso ar gyfer eich rhaglen waith.
Byddwn yn dechrau pethau drwy drefnu tri o gyfarfodydd gweithdy rhyngoch chi, eich gwerthuswr ac aelodau o'n tîmau Rhaglen a Gwerthuso. Bydd y gweithdai hyn yn sicrhua bod gan bawb ddealltwriaeth lawn o'ch prosiect ac yn helpu'r gwerthuswr i ddechrau gweithio ar ddylunio'r gwerthusiad.

CYFNOD CYD-DDYLUNIO:
Gorffennaf – Hydref 2021

CYD-DDYLUNIO

Beth i'w ddisgwyl:
Cyda chefnogaeth ein tîm, byddwch yn gweithio'n agos gyda'ch gwerthuswr i greu cynllun manwl ar gyfer cyflawni eich prosiect.
Bydd eich gwerthuswr yn gyfrifol am ddylunio rhan werthuso'ch prosiect.
Byddwch yn gweithio gyda'ch gwerthuswr i:

- Ddiffinio deilliannau yn glir.
- Meddwl yn feiriadol am eich rhaglen a theori newid, a nodi meysydd i'w gwll.
- Creu cynllun gweithredu manwl.
- Dylunio gwerthusiad manwl sy'n gweddu i ofynion eich prosiect.
- Adnabod sut byddwch yn mesur effaith eich prosiect, casglu'r data sy'n ofynnol a rheoli'r risgiau cysylltiedig.
- Creu cynllun costau manwl i sicrhau bod gennych yr adnoddau a'r capasiti i gyflawni eich prosiect a chefnogi ei werthusiad.

DYDDIAD CAU AR GYFER CYNIGION TERFYNNOL:
Medi-Hydfref 2021

CYFLWYNO CYNNIG TERFYNNOL

Beth i'w ddisgwyl:
O'r cyfnod cyd-ddylunio bydd gofyn i chi gyflwyno cynnig drafft. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu rhyngoch chi a'ch gwerthuswr i drafod ac ateb unrhyw gwestiynau allai fod gennym.
Yn dilyn hyn, bydd angen i chi gyflwyno eich cynnig terfynol erbyn mis Medi neu Hydref 2021, yn dibynnu ar eich math o werthusiad.
Bydd eich cynnig terfynol yn cael ei adolygu gan ein Pwyllgor Grantiau a Gwerthuso a bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar ddyfarnu grant i'ch prosiect.
Mae'n bwysig nodi nad oes gwarant o gyllid i ymgeiswyr sy'n cyrraedd Cam 2 a chyflwyno cynnig terfynol.

DYFARNU GRANTIAU:
Tachwedd 2021

DYFARNU GRANTIAU

Beth i'w ddisgwyl:
Byddwn yn rhoi gwybod i chi a yw eich prosiect wedi cael dyfarniad cyllid erbyn mis Tachwedd.
Os byddwch yn llwyddiannus, bydd angen i chi lofnodi eich cytundeb grant a darparu'r ddogfennaeth ganlynol:

- Eich manylion banc
- Copi o ddatganiad banc heb fod yn hŷn na thri mis oed

CYFLAWNIAD A GWERTHUSIAD Y RHAGLEN YEF YN DECHRAU:
Tachwedd 2021

CYFLAWNI'N DECHRAU

Beth i'w ddisgwyl:
Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r holl waith papur, byddwn yn trefnu eich taliad grant cyntaf a gallwch ddechrau cyflawni!
Bydd eich gwerthuswr yn gweithio gyda chi gydol y cyfnod cyllid i drefnu a rhedeg y gwerthusiad, a byddwn yno i'ch cefnogi bob cam o'r ffordd. Bydd gennych gyswllt yn ein tîmau Rhaglen a Gwerthuso fydd yn cysylltu'n aml ac ar gael i ateb unrhyw gwestiynau allai fod gennych.

Cam 2

